# Ymgynghoriad ar ein dull o gyflawni'r Adolygiad Perfformiad

## Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ 1

Ein rôl a’r broses adolygiad perfformiad ........ 1

Beth ydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn ........ 2

Yr ymgynghoriad hwn ........ 3

**Datblygu ein dull gweithredu** ........ 4

**Sut olwg fydd ar adolygiad cyfnodol?** ........ 4

**Beth fydd yn digwydd yn y blynyddoedd heb adolygiad cyfnodol?** ........ 7

**Hyd y cylch** ........ 8

**Ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu sut rydym yn cyflawni pob adolygiad** ........ 9

**Asesiad o effaith y cynigion** ........ 11

**Crynodeb o gwestiynau a sut i ymateb** ........ 12

**Cyfrinachedd gwybodaeth** ........ 14

**Ein proses ymgynghori ac adborth** ........ 14

# 1. Cyflwyniad

## Ein rôl a’r broses adolygiad perfformiad

1.1 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (yr Awdurdod) ar 1 Rhagfyr 2012 gan gymryd cyfrifoldeb dros swyddogaethau'r Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd. Rydym yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Sefydlir ein rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2002. Rydym yn goruchwylio gwaith y 10 rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol:

- **Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol** (GCC) sy’n rheoleiddio ceiropractyddion yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol** (GDC) sy’n rheoleiddio deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, hylenyddion deintyddol, therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol a therapyddion orthodonteg yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol** (GMC) sy’n rheoleiddio meddygon yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Optegol Cyffredinol** (GOC) sy’n rheoleiddio optometryddion, optegwyr cymwysedig ac optegwyr sy’n fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol** (GOsC) sy’n rheoleiddio meddygon esgyrn yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol** (GPhC) sy’n rheoleiddio fferyllwyr ym Mhrydain Fawr
- **Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal** (HCPC) sy’n rheoleiddio therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, cyflenwyr teclynnau clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptwyr, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicolegol, prosthetyddion/orthotyddion, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a llais yn y Deyrnas Unedig.
- **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** (NMC) sy’n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig a chymdeithion nyrsio yn Lloegr
- **Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon** (PSNI) sy’n rheiddio fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon
- **Social Work England** (SWE) sy'n rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr.

### Y broses o adolygu perfformiad

1.2 Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar ‘i ba raddau, ym marn yr Awdurdod, mae pob un o’r rheolyddion wedi cydymffurfio gydag unrhyw ddyletswydd a gyflwynwyd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles [defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr,

defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau eraill o'r cyhoedd]'.[1]

1.3 Rydym yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwy gyflawni adolygiadau perfformiad blynyddol o bob rheoleiddiwr. Mae'r adolygiadau hyn yn asesu perfformiad y rheolyddion yn erbyn ein Safonau Rheoleiddio Da (y Safonau) sy'n sefydlu'r deilliannau yr ydym yn disgwyl i bob rheoleiddiwr gyflawni.

Fe adolygom y broses adolygiad perfformiad ddiwethaf yn 2014/15, a rhoi'r broses gyfredol ar waith yn 2016. Penderfynom edrych eto ar ein dull i sicrhau ei fod yn dal i fod yn gymesur ac effeithiol.

## Beth ydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn

1.4 Fe gynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Rhagfyr 2020 a Mawrth 2021. Gallwch ddarllen canlyniad yr ymgynghoriad yn yr adroddiad hwn.

1.5 Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gefnogaeth glir ar gyfer cyflymu cyhoeddi ein hadroddiadau, gwella ein hymgysylltiad â rheolyddion a rhanddeiliaid eraill a gwneud ein hadroddiadau'n gliriach. Roedd cefnogaeth hefyd ar gyfer datblygu ein dealltwriaeth o risg.

1.6 Rydyn ni eisoes wedi ymroi i gyflwyno'r newidiadau canlynol o Ionawr 2022. Byddwn yn:

- Gwneud mwy o waith yn ystod y flwyddyn, gyda'r nod o gyhoeddi ein hadroddiadau cyn pen tri mis ar ddiwedd y cyfnod yr ydym yn adrodd
- Ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid
- Gwneud ein hadroddiadau yn gliriach ac yn fwy cryno a, lle bo hynny'n briodol, cynnwys argymhellion cymesur
- Datblygu ein dealltwriaeth o risg gan gynnwys risgiau penodol i broffesiwn a defnyddio hyn i lywio cwmpas ein hadolygiadau.

1.7 Yn ein hymgynghoriad cyntaf, fe ofynnom i ymatebwyr am adborth ar os dylem barhau i edrych ar berfformiad y rheolyddion yn erbyn yr holl Safonau pob blwyddyn. Roedd pob un o'r grwpiau rhanddeiliaid yn cefnogi symud tuag at ddull mwy targedig a chymesur, rydyn ni'n ymroddedig i archwilio newidiadau mwy radical i'r broses adolygu fel ein bod yn targedu ein hadolygiadau tuag at y meysydd gwaith hynny a'r rheolyddion hynny lle mae gennym dystiolaeth o bryderon. Bwriadwn i hyn olygu bod ein hadnoddau wedi ffocysu ar y risgiau mwyaf i ddiogelu'r cyhoedd.

1.8 Mae'r llywodraeth yn ystyried diwygiadau i bwerau rheolyddion er mwyn gwneud rheoleiddio proffesiynol yn 'gyflymach, mwy syml ac yn fwy ymatebol i anghenion cleifion, gweithwyr proffesiynol, y cyhoedd a chyflogwyr'.[2] Felly bydd angen i'n proses adolygiad perfformiad fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau i'r modd mae'r rheolyddion yn gweithredu. Gallai newidiadau o'r fath olygu bod risgiau newydd neu wahanol yn dod i'r amlwg, a bod angen i ni allu gwerthuso'r rhain a sut mae'r rheolyddion yn mynd i'r afael â nhw. Tra'n bod yn ystyried bod ein proses yn debygol o fod yn ddigon hyblyg i'n

[1] Paragraff 16 (1A) y Ddeddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd.
[2] Ymgynghorodd y llywodraeth ar ddiwygio rheoleiddio proffesiynol tua diwedd 2017/dechrau 2018. Gweler https://www.gov.uk/government/consultations/promoting-professionalism-reforming-regulation am ragor o wybodaeth.

galluogi i wneud hyn, byddem yn croesawu sylwadau ar os fyddai unrhyw newidiadau yn ein proses yn ein helpu i sicrhau hyn.

### Yr ymgynghoriad hwn

1.9 Rydyn ni'n datblygu dull newydd i adolygiadau perfformiad a fydd yn galw am adolygiad cyfnodol gyda monitro rhwng pob un i'n galluogi i olrhain perfformiad rheolyddion pob blwyddyn, ymateb i risgiau[3] wrth iddynt godi, ac adrodd i'r seneddol yn unol â'n dyletswydd statudol.

1.10 Bydd y broses yn hyblyg, yn ymatebol ac yn gymesur. Ar gyfer yr adolygiad cyfnodol a'r prosesau monitro, bydd ehangder ein hadolygiad yn ddibynnol ar y risgiau a materion a nodir gennym fel ein bod yn ffocysu ein hadnoddau ar feysydd a rheolyddion ble nodir risgiau ac yn treulio llai o amser y rhai ble gennym lai o bryderon.

1.11 Yn y broses newydd, byddwn yn casglu a dadansoddi gwybodaeth trwy gydol y flwyddyn. Byddwn yn nodi unrhyw bryderon gyda rheolyddion yn ystod y flwyddyn i'w galluogi i ymateb a gweithredu ar yr wybodaeth hon. Dylai'r broses hon ein galluogi i nodi unrhyw newidiadau mewn perfformiad yn gynharach a bydd yn rhoi awgrym cynharach i reolyddion o bryderon.

1.12 Rydyn ni hefyd yn bwriadu ymgysylltu'n agosach gyda rhanddeiliaid, yn arbennig gyda chleifion a'r cyhoedd, a byddwn yn defnyddio dull mwy strwythuredig a thargedig. Bydd yr adborth yma gan randdeiliaid yn ein helpu i nodi risgiau i ddiogelu'r cyhoedd, ac felly i hysbysu ein hadolygiadau.

1.13 Tra bod y broses newydd wedi ei fwriadu i leihau baich cyffredinol adolygiadau perfformiad, gall rhai rheolyddion sydd ag adolygiadau blynyddol llai dwys ar hyn o bryd ganfod mewn rhai blynyddoedd adolygiad cyfnodol fod y broses newydd yn fwy helaeth nag yw ar hyn o bryd.

1.14 Disgwyliwn wneud penderfyniad ar weithredu yn Ionawr 2022.

1.15 Croesawn ymatebion i'r cwestiynau a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn gan yr holl randdeiliaid. Anfonwch nhw at PRConsultation@professionalstandards.org.uk yn ddim hwyrach na **21 Rhagfyr 2021.** O ganlyniad i'r pandemig, byddem yn annog ymatebwyr yn gryf i gyflwyno eu hymatebion trwy e-bost neu i gysylltu â ni os nad yw hyn yn bosibl.

### Camau nesaf

1.16 Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac adrodd ar ein casgliadau i'n Bwrdd yn Ionawr 2022. Rydym yn disgwyl setlo unrhyw newidiadau i'r broses ac i'w mabwysiadu yn Ebrill 2022. Bydd y cyfnod trosiant hwn yn galw am gynllunio gofalus, a chredwn y dylai hyn ddarparu digon o amser i ni a'r rheolyddion addasu i unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r amserlen hon dan adolygiad.

[3] Ble byddwn yn cyfeirio at 'risg' yn y papur hwn, oni bai y nodir fel arall, mae hyn yn cyfeirio at y risg i ddiogelu'r cyhoedd o ganlyniad i berfformiad rheoleiddiol diffygiol.

# 2. Datblygu ein dull gweithredu

2.1 Wrth ddatblygu ein dull gweithredu, rydym wedi gweithio ar sail y tybiaethau a grynhoir isod:

- Rydym eisiau gwneud ein hadolygiadau perfformiad yn fwy cymesur, gan gynnal ein ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd. Mae lleihau baich yn ddymunol, ond nid yw hyn yn drech na'n ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd.
- Mae adolygiadau perfformiad wedi eu cynllunio i roi sicrwydd digonol, yn hytrach na llwyr, am reoleiddiwr. Fyddwn ni fyth yn gwybod popeth am reoleiddiwr, a dylem ystyried y ffaith bod gan reolyddion eu prosesau sicrwydd a throsolwg eu hunain gan Gynghorau.
- Rydym yn derbyn lefel benodol o risg yn ein trosolwg. Po fwyaf fydd y cyfnod rhwng adolygiadau cyfnodol, y mwyaf fydd y risg y bydd ein gwybodaeth am berfformiad yn lleihau. Fodd bynnag, fe ddelir â hyn trwy ein gwaith monitro, yn cynnwys gwella ymgysylltiad a rhanddeiliaid, a hybu ein dealltwriaeth o risgiau penodol i'r proffesiwn. Bydd ein prosesau yn hyblyg i addasu i'r gwahanol risgiau a chyfraddau newid mewn gwahanol reolyddion. Byddwn hefyd angen gallu ymateb i newidiadau a ddaw i fod trwy ddiwygio. Mae yna hefyd risg o beidio newid ein prosesau; golyga parhau gyda'n dull cyfredol o edrych ar bob Safon mewn manylder pob blwyddyn ei bod yn bosibl na fyddwn yn gallu targedu ein hadnoddau'n ddigonol i'r meysydd ble mae'r risg yn fwyaf.
- Mae cyswllt annatod rhwng yr adolygiad cyfnodol a'r prosesau monitro. Po fwyaf y gwyddom trwy fonitro ac adolygiadau blaenorol, y lleiaf o wybodaeth ddylem fod angen ei cheisio trwy adolygiad cyfnodol.
- Dylai adolygiadau cyfnodol fod yn debyg o ran dwyster i adolygiad blynyddol cyfredol. Dylai baich cyffredinol cylch llawn fod yn llai o fyrdwn ar y rheolyddion na'r cyfnod cyfatebol cyfredol, er y gallai rheolyddion unigol dderbyn mwy o graffu nag eraill ar sail risg.
- Bydd y broses yn cael ei chynllunio i'n galluogi i ddefnyddio mwy o'n capasiti i ymroi i weithio i wella rheoleiddio.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno gyda'n tybiaethau? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

# 3. Sut olwg fydd ar adolygiad cyfnodol?

3.1 Mewn adolygiad cyfnodol, byddwn yn edrych ar yr wybodaeth sydd gennym parthed pob un o'r Safonau. Byddwn yn cyflawni dadansoddiad o'r wybodaeth sydd gennym, yn cynnwys unrhyw ohebiaeth a chwynion a dderbyniwn, a chanlyniad ein gwaith Adran 29. Byddwn yn ystyried y penderfyniad a wnaethpwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, gwybodaeth a rennir gan y rheoleiddiwr ac adborth gan randdeiliaid. Byddwn yn nodi ble mae angen i ni gasglu rhagor o wybodaeth a pha offer ddylem ddefnyddio i wneud hynny, a bydd hyn yn pennu cwmpas ein

hadolygiad. Yr adolygiad cyfnodol yw ein cyfle i edrych mewn manylder ar reolyddion fel bod gennym olwg graff ar eu perfformiad, a bydd hyn yn debygol o olygu y bydd adolygiadau cyfnodol yn fwy dwys nag adolygiadau monitro.

3.2 Byddwn yn ystyried y ffactorau a sefydlir yn Adran 6 i dywys cwmpas yr adolygiadau cyfnodol. Disgwyliwn mewn rhaid achosion na fydd adolygiad cyfnodol yn llawer mwy dwys nag adolygiad monitro; os oes gennym bryderon neu feysydd ble byddwn angen rhagor o wybodaeth, efallai na fydd angen i ni gyflawni unrhyw ymholiadau arwyddocaol.

3.3 Dylai adolygiad cyfnodol ddarparu dealltwriaeth dda i ni o sut mae rheoleiddiwr yn perfformio ar hyn o bryd, a byddwn yn defnyddio ein casgliadau i hysbysu ein gwaith yn y dyfodol parthed y rheoleiddiwr hwnnw, gan gynnwys unrhyw feysydd ar gyfer ffocws yn dilyn yr adolygiad cyfnodol. Yn ddibynnol ar ein casgliadau, byddwn yn sefydlu sut ydym yn bwriadu monitro gwaith y rheoleiddiwr yn y blynyddoedd i ddod.

## Y broses adolygiad cyfnodol

### Casglu gwybodaeth yn rheolaidd

3.4 Mae Ffigwr 1 isod yn sefydlu amserlen a awgrymir ar gyfer ein gwaith yn ystod y flwyddyn. Ni fwriedir i hyn fod yn gynllun pendant. Bydd yr amseriad, lefel y manylder sydd angen, a'r adnoddau sydd angen yn amrywio rhwng rheolyddion (er enghraifft, nid ydym yn rhagweld y byddwn angen monitro cyhoeddiadau yn fisol, na gwirio'r gofrestr mor aml, ar gyfer pob rheoleiddiwr). Bydd hefyd yn amrywio ar gyfer rheolyddion unigol gydag amser gan ein bod yn debygol o fonitro rheolyddion yn agosach mewn blynyddoedd ble mae gennym bryderon. Byddwn yn adolygu a dadansoddi gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na choladu hyn ar ddiwedd y cyfnod adolygu. Bydd hyn yn ein galluogi i edrych ar berfformiad yn ystod y flwyddyn, ac i ddelio â phryderon wrth i ni ddod yn ymwybodol ohonynt. Byddwn yn casglu gwybodaeth gan yr amrywiol ffynonellau hyn i gefnogi ein hasesiad yn erbyn pob un o'r Safonau.

**Ffigwr 1**

| Tasg | Mis 1 | Mis 2 | Mis 3 | Mis 4 | Mis 5 | Mis 6 | Mis 7 | Mis 8 | Mis 9 | Mis 10 | Mis 11 | Mis 12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwrdd â'r rheoleiddiwr | | | | | | | | | | | | |
| Adolygiad o bapurau'r Cyngor | | | | | | | | | | | | |
| Arsylwi'r Cyngor | | | | | | | | | | | | |
| Adolygiad o gyhoeddiadau | | | | | | | | | | | | |
| Gwirio cofrestr | | | | | | | | | | | | |
| Canlyniadau A29 ac adolygiad LPs | | | | | | | | | | | | |
| Adolygiad pryderon | | | | | | | | | | | | |
| Adolygiad set data | | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda ffocws | | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid – e.e. negeseuon e-bost a galwadau | | | | | | | | | | | | |

### Cyswllt rheolaidd gyda rheolyddion

3.5 Byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolyddion i hysbysu ein hunain am ddatblygiadau a thrafod unrhyw faterion sy'n peri gofid i ni. Rydyn ni eisoes

yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd fel hyn gyda rhai rheolyddion ac wedi eu cael i fod yn fuddiol o ran meithrin perthynas. Gobeithiwn y bydd hyn yn golygu nad oes unrhyw beth annisgwyl ar ddiwedd y flwyddyn o ran canlyniadau adolygiadau perfformiad ac y gall y rheolyddion ddelio'n fuan ag unrhyw faterion a nodir gennym.

3.6 Yn rhan o’r gwaith ymgysylltu mwy rheolaidd yma, byddwn yn gweithio gyda’r rheolyddion a’u cynghorau i ddeall eu hasesiad o risgiau.

3.7 Byddwn yn trafod gyda phob rheoleiddiwr y fformat ac amseriad mwyaf priodol ar gyfer y cyfarfodydd hynny.

### Arsylwi ac adolygu papur gan y Cyngor; Gwirio cofrestr; Adolygu cyhoeddiadau; Canlyniadau A29 a phwyntiau dysgu; Adolygiad pryderon; Adolygiad set data

3.8 Rydym yn cyflawni'r tasgau hyn i gyd ar hyn o bryd. Mae’r rhain yn brosesau allweddol sy'n ein galluogi i adeiladu darlun cyfredol o berfformiad ar draws y flwyddyn. Byddwn yn parhau i wneud hynny.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

3.9 Rydyn ni eisiau gwella ymgysylltu â rhanddeiliaid i wella ein dealltwriaeth o sut maent yn dehongli gwaith y rheolyddion. Mae ymatebion i'n hymgynghoriad cyntaf yn tywys ein gwaith yn y maes hwn. Byddwn yn:

- datblygu gwell dealltwriaeth o pwy yw ein rhanddeiliaid (gan gydnabod y gallai rhanddeiliaid fod yn benodol i feysydd gwaith pob rheoleiddiwr unigol)
- ymgysylltu mwy gyda’r cyhoedd, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau sy'n eu cynrychioli
- casglu adborth gan yr holl randdeiliaid gyda mwy o ffocws ac yn fwy targedig nag ydym ar hyn o bryd
- ei gwneud yn haws i randdeiliaid ddarparu adborth i ni – er enghraifft, trwy gynnal cyfarfodydd gyda nhw.
- Byddwn yn hysbysu'r rheolyddion am yr adborth a gasglwn gan randdeiliaid a, ble byddwn yn nodi risgiau neu bryderon penodol, efallai y byddwn yn chwilio am ymateb gan y rheoleiddiwr.

### Archwiliadau

3.10 Ynghyd â’r tasgau a amlinellwyd yn Ffigwr 1, bydd gennym yr opsiwn i edrych ar brosesau'r rheoleiddiwr trwy archwiliadau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cynnal archwiliadau o addasrwydd i ymarfer yn unig, ond byddem yn disgwyl archwilio meysydd gwaith eraill (e.e. cofrestru ac ymarfer anghyfreithlon).

3.11 Mae ein harchwiliadau hyd yma wedi cynnwys archwiliadau manwl iawn o nifer fawr o achosion. Credwn y gallwn leihau'r nifer o achosion y byddwn yn edrych arnynt ac ymroi mwy o adnoddau i gael gwell dealltwriaeth o faes penodol, er enghraifft trwy gynnal cyfweliadau gyda staff i ddeall prosesau'n well. Efallai y byddwn hefyd eisiau gweld gwaith rheoleiddiwr ar waith, er enghraifft trwy

arsylwi ymweliad sicrwydd ansawdd addysg a hyfforddiant. Byddem yn disgwyl i hyn ddigwydd o fewn yr adnoddau a ddefnyddir gennym ar hyn o bryd i gyflawni archwiliadau.

3.12 Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 1.8 uchod, rydym yn ystyrlon y gall newidiadau arwyddocaol i brosesau rheolyddion ofyn i ni edrych mewn mwy o fanylder ar y prosesau hynny. Efallai y bydd hyn yn y tymor byr, er mwyn deall effaith unrhyw newidiadau, neu yn y tymor hwy, i adolygu unrhyw risgiau newydd. Yn benodol, rydym yn ystyrlon y gallai un o'r newidiadau dan ystyriaeth, 'deilliannau derbyniol', achosi newid yn ein trosolwg Adran 29.[4] Efallai y bydd angen i ni ddefnyddio archwiliadau targedig i'n helpu u ddeall a lliniaru yn erbyn risgiau o'r fath.

### Cwestiynau ffurfiol

3.13 Rydyn ni hefyd yn disgwyl ceisio gwybodaeth fanwl trwy gwestiynau ysgrifenedig i'r rheoleiddiwr parthed risgiau neu ymholiadau unigol. Fodd bynnag, obeithiwn trwy wella cyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r rheolyddion y byddwn yn gallu lleihau'r achosion ble bydd hyn yn angenrheidiol.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer adolygiadau cyfnodol? A oes meysydd y dylid edrych arnynt yn rhan o bob adolygiad cyfnodol? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu bod y meysydd y byddwn yn edrych arnynt i fod yn sail i'n sylfaen tystiolaeth yn briodol? A oes yna unrhyw feysydd y dylem eu harchwilio i wella'r dystiolaeth a gesglir gennym? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

# 4. Beth fydd yn digwydd yn y blynyddoedd heb adolygiad cyfnodol?

4.1 Dylai'r adolygiad cyfnodol ein galluogi i gael darlun digonol o berfformiad y rheoleiddiwr i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer ein monitro tan yr adolygiad cyfnodol nesaf. Fodd bynnag, rydym dal angen monitro perfformiad, nodi risgiau newydd ac adrodd i'r Senedd yn y blynyddoedd cyfamserol.

4.2 Byddwn yn monitro'r wybodaeth a ddisgrifir yn Ffigwr 1. Ond, yn ddibynnol ar gasgliadau'r adolygiad cyfnodol a beth mae ein gwaith monitro yn ei ddatgelu i ni am risg, gallai hyn fod yn llai dwys nad ar gyfer adolygiad cyfnodol. Er enghraifft, efallai na fyddwn yn cyflawni gwiriadau cofrestr mewn blwyddyn fonitro a gallem gynnal gwaith ymgysylltu llai manwl â rhanddeiliaid.

4.3 Fe gyda'r broses adolygiad cyfnodol, bydd y llwyth gwaith wedi ei ledaenu ar draws y flwyddyn, a fydd yn ein galluogi i ddarparu deilliannau i'r rheolyddion a chyhoeddi ein hadroddiadau yn gynt. Bwriadwn gyflwyno targed i gyhoeddi adroddiadau o fewn tri mis i ddiwedd cyfnod adolygu.

[4] Gweler ein hymateb i ymgynghoriad y Llywodraeth https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/others-consultations/2021/authority-response-to-consultation-on-regulating-healthcare-professionals-protecting-the-public.pdf?sfvrsn=7a1a4920_4

### Monitro Safonau na fodlonwyd

4.4 Byddwn yn dal i fonitro ac adrodd ar Safonau na fodlonwyd yn flynyddol nes ein bod wedi'n bodloni fod y Safon wedi ei chyflawni. Byddwn yn gweithio gyda'r rheolyddion i ddeall y lefel o fonitro sydd angen – er enghraifft, talu sylw i gynnydd unrhyw raglenni gwelliant y gallai gyflawni.

### Monitro pryderon am berfformiad

4.5 Ble mae gennym dystiolaeth o berfformiad diffygiol, neu fod pryderon difrifol yn cael eu codi gan randdeiliaid, byddwn yn ystyried os oes angen i ni wneud gwaith pellach i asesu perfformiad.

4.6 Mae hyn yn debygol o gynnwys gwneud ymholiadau pellach neu gyflawni archwiliadau. Fel gyda’r broses adolygiadau cyfnodol byddwn yn glir am beth fydd yn ystyried wrth bennu os oes angen gwybodaeth bellach yn ystod blwyddyn fonitro.

4.7 Gallem symud adolygiad cyfnodol i ddyddiad cynharach os oes gennym bryderon digonol ynghylch perfformiad rheoleiddiwr.

### Newidiadau mawr

4.8 Pan fydd rheoleiddiwr yn cyflwyno newidiadau arwyddocaol i’w brosesau neu reolau, rydym yn debygol o fod eisiau asesu effaith y newidiadau hyn naill ai trwy archwiliad neu fonitro arall. Byddwn yn ystyried yr amser a dull mwyaf priodol i wneud hynny gan ystyried y fenter benodol dan sylw.

Cwestiwn 4: Ydych chi’n cytuno â’n dull gweithredu arfaethedig i fonitro perfformiad yn y blynyddoedd rhwng adolygiadau cyfnodol? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

# 5. Hyd y cylch

5.1 Rydym wedi bod yn adolygu dewisiadau hyd cylch o dair, pedair a pum mlynedd ar gyfer ein dull newydd.

5.2 Gellid dadlau bod symud i flwyddyn aml-gylch yn cyflwyno mwy o risg o ran y gallem wybod llai am berfformiad rheoleiddiwr yn y blynyddoedd cyfamserol. Ein nod yw delio â hyn trwy ein monitro yn y blynyddoedd hyn.

5.3 Po fwyaf o amser fydd rhwng adolygiadau cyfnodol, y mwyaf tebygol yw hi y byddwn angen cyflawni adolygiadau mwy manwl yn ystod y blynyddoedd monitro. Byddem yn disgwyl y byddai angen i ni gyflawni mwy o adolygiadau tu allan i'r cylch i edrych ar faterion penodol mewn cylch pum mlynedd. Er enghraifft, pe byddem yn gweld problem neu newid yn ail flwyddyn cylch tair blynedd, gallem benderfynu aros tan yr adolygiad llawn yn y flwyddyn ddilynol i adolygu’r mater mewn manylder. Pe byddai’r un senario yn codi mewn cylch pum mlynedd, efallai na fyddai'n briodol aros tair blynedd a byddai angen i ni ddefnyddio adnoddau tu allan i'r cylch i ymchwilio. Gallai hyn leihau unrhyw arbedion adnoddau a fyddai'n weladwy fel arall o gylch hirach.

5.4 Ystyriaeth arall bwysig yw hyder rhanddeiliaid yn ein hadolygiadau perfformiad. Er nad oedd ymatebwyr i’r ymgynghoriad cychwynnol yn anghytuno gyda

symud i ffwrdd o gylch blynyddol, roedd rhai yn rhybuddio yn erbyn symud i gylch oedd yn rhy hir.

5.5 Felly rydym yn cynnig y dylem symud i gylch tair blynedd o 2022. Credwn fod yr hyd cylch hwn y cyffyrddiad cywir i sicrhau y gallwn oruchwylio’r rheolyddion yn effeithiol tra’n lleihau baich trosolwg. Fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn cydnabod na fydd yr holl reolyddion wedi newid yn arwyddocaol yn ystod tair blynedd. Byddem yn cadw’r hawl i ohirio rhai agweddau o adolygiad cyfnodol tan y cylch nesaf os nad oedd tystiolaeth o bryderon wedi codi, ac nad oedd newidiadau mawr wedi digwydd. Byddwn yn cadw hyd y cylch dan adolygiad ac yn newid hyn os bydd yn dod i’r amlwg ei fod yn rhy gyson neu'n rhy faith.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu ein bod wedi nodi'r ffactorau cywir i’w hystyried wrth bennu hyd y cylch adolygu? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y byddai cylch tair blynedd yn briodol? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

# 6. Ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu sut rydym yn cyflawni pob adolygiad

6.1 Mae’n bwysig ein bod ni a'n rhanddeiliaid yn glir ynghylch beth fyddwn ni'n ystyried wrth i ni benderfynu ar gwmpas ein hadolygiadau cyfnodol ac wrth i ni ystyried cyflawni gwaith manylach mewn blynyddoedd monitro.

6.2 Rydyn ni'n sefydlu'r hyn a ystyriwn i fod y prif ffactorau isod. Mae’r rhain o anghenraid yn gyffredinol, a rhaid i'n nod cyffredinol fod i gael hyblygrwydd i weithredu os teimlwn fod diogelu'r cyhoedd yn galw am hyn. Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth a ddisgrifir yn Ffigwr 1 i hysbysu ein penderfyniadau.

### Adolygiadau cyfnodol

6.3 Mae adolygiadau cyfnodol yn gyfle i ddeall perfformiad rheoleiddiwr ar draws yr holl Safonau ac i nodi unrhyw bryderon allai fod angen sylw pellach.

6.4 Wrth benderfynu beth yw'r cwmpas, rydym yn cynnig edrych ar:

- Faint o amser sydd ers i'r swyddogaeth reoleiddio gael ei hadolygu mewn manylder
- Unrhyw fylchau yn ein dealltwriaeth o sut mae rheoleiddiwr yn perfformio
- Canlyniadau adolygiadau perfformiad blaenorol
- Gwybodaeth sy'n nodi pryder arwyddocaol a allai effeithio ar berfformiad yn erbyn safon neu gyfateb i risg i ddiogelu’r cyhoedd
- Newid arwyddocaol i broses sy'n lleihau ein dealltwriaeth o'r broses honno’n arwyddocaol

- Risgiau newydd neu arwyddocaol yn codi o amgylchedd ymarfer neu ofal iechyd y cofrestryddion, yn arbennig ble na ymddengys bod y rhain yn cael sylw
- Pryderon arwyddocaol eraill a allai effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffactorau cywir i ni ystyried wrth benderfynu ar y meysydd i 'w hystyried yn ystod adolygiadau cyfnodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?

### Adolygiad pellach tu allan i'r cylch

6.5 Mewn nifer o achosion bydd y monitro rheolaidd a gyflawnir gennym yn ddigonol i'n galluogi i adrodd yn hyderus i'r Senedd ynghylch perfformiad y rheoleiddiwr. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth ac yn cyflawni archwiliadau ble credwn fod diogelu'r cyhoedd yn galw am hyn, neu os byddwn ei hangen i bennu os yw Safon wedi ei bodloni. Bydd y mathau o ffactorau a ddefnyddiwn yn cynnwys:

- Canlyniad adolygiadau blaenorol, yn cynnwys Safonau heb eu bodloni sy'n galw am fonitro
- Gwybodaeth sy'n nodi problem arwyddocaol gyda phroses rheoleiddiwr a allai effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd neu berfformiad yn erbyn Safon
- Newid mawr i broses nad ydym wedi cael cyfle i'w hadolygu ac a allai effeithio ar ddiogelu'r cyhoedd neu berfformiad yn erbyn Safon
- Cais gan reoleiddiwr i adolygu Safon nad yw wedi ei chyflawni ar hyn o bryd i bennu a yw bellach wedi ei chyflawni
- Pryderon eraill sy'n awgrymu risg i ddiogelu'r cyhoedd neu nad yw Safon wedi ei bodloni.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffactorau cywir i ni ystyried wrth benderfynu bod angen edrych yn fanylach ar feysydd penodol tu allan i'r adolygiadau cyfnodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?

### Cyflawni adolygiad cyfnodol llawn tu allan i'r cylch

6.6 Dim ond ble mae gennym bryderon nad yw rheoleiddiwr yn gweithredu'n effeithiol ac yn diogelu'r cyhoedd mewn nifer o feysydd y byddem yn cynnal adolygiad cyfnodol rheoleiddiwr yn gynnar. Byddem yn defnyddio'r un ffactorau ag ar gyfer adolygiad pellach tu allan i'r cylch (ac eithrio cais gan reoleiddiwr i adolygu Safon), ond byddai angen bodloni ffactorau lluosog ar draws nifer o swyddogaethau rheoleiddio.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ffactorau hyn i gynnal adolygiad cyfnodol yn gynnar fod yn debyg i'r rhai ar gyfer cyflawni adolygiadau tu allan i'r cylch? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn drothwy priodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?

### Pennu trefn rheolyddion mewn cylch

6.7 Mae yna nifer o ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth bennu trefn rheolyddion yn y cylch cyntaf i'w gyflawni gennym. Yna byddem yn disgwyl cadw at gylch tebyg, ond efallai y byddai angen gwneud newidiadau os bydd eithriadau. Y meysydd y byddwn yn eu hystyried yw:

- Risg o berfformiad gwael, gan gynnwys peidio cyflawni Safonau
- Adolygiadau pellach diweddar wedi eu cyflawni, i amlinellu faint sydd eisoes yn hysbys a gwaith pellach sy'n debygol o fod yn angenrheidiol mewn adolygiad llawn
- Maint y rheoleiddiwr a'r adnoddau tebygol ar gyfer adolygiad cyfnodol
- Cyfnod yr adolygiad presennol ac os byddai angen ymestyn neu fyrhau hyn.

Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno mai dyma'r ffactorau cywir ar gyfer pennu trefn y rheolyddion yn y cylch? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?

**Sut fyddai hyn yn cael ei weithredu?**

6.8 Mae gweithredu'r broses yn debygol o fod yn eithaf cymhleth oherwydd mae ein proses bresennol wedi ei phwysoli tuag at ddiwedd y flwyddyn adolygiad perfformiad, ac rydym yn symud tuag at broses ble byddai'r gwaith (yn cynnwys mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid) wedi ei ledaenu trwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn yn galw am gynllunio gofalus i symud o'r broses gyfredol i'r un newydd. Gan ein bod yn symud o adolygiadau blynyddol i adolygiadau cyfnodol, byddwn angen ystyried sut i gynnal trosolwg priodol o'r rheolyddion sy'n derbyn eu hadolygiad cyfnodol cyntaf yn hwyrach yn y cylch. Rydym yn cyflawni gwaith pellach i archwilio'r opsiynau o ran pontio ac i nodi'r dull gorau.

# 7. Asesiad o effaith y cynigion

7.1 Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn deall unrhyw effaith neu faich mae ein cynigion yn debygol o greu er mwyn i ni allu ystyried unrhyw newidiadau priodol.

7.2 Rydym yn parhau i fod yn ystyrlon o effaith bosibl unrhyw newidiadau a archwiliwn trwy gydol y broses adolygu hon. Rydym yn gofyn am farnau'r rhai a effeithir, ac yn benodol y rheolyddion ac eraill sy'n ymateb i'n hadolygiadau perfformiad o effaith debygol y newidiadau i'r broses a amlinellwyd yma.

Cwestiwn 11: Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion a sefydlir yn y papur hwn yn debygol o'u cael r eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion.

7.3 Yn ystod pob cam o'n hadolygiad, byddwn yn ystyried a oes goblygiadau cydraddoldeb arwyddocaol, naill ai'n bositif neu'n negyddol, ar gyfer ein rhanddeiliaid. Nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau cydraddoldeb neu

amrywiaeth negyddol arwyddocaol o'n cynigion a disgwyliwn y bydd budd positif i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd o wella craffu ar y rheolyddion gyda phroses wedi ei diweddaru.

7.4 Fodd bynnag, byddem yn croesawu unrhyw adborth i sicrhau'n bod yn ystyried yr holl faterion perthnasol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ynghylch effaith y cynigion hyn.

Cwestiwn 12: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Arall (nodwch)

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

# 8. Crynodeb o gwestiynau a sut i ymateb

**Crynodeb o gwestiynau**

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno gyda’n tybiaethau? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

Cwestiwn 2: Ydych chi’n cytuno â’n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer adolygiadau cyfnodol?  A oes meysydd y dylid edrych arnynt yn rhan o bob adolygiad cyfnodol? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu bod y meysydd y byddwn yn edrych arnynt i fod yn sail i'n sylfaen tystiolaeth yn briodol? A oes yna unrhyw feysydd y dylem eu harchwilio i wella'r dystiolaeth a gesglir gennym? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

Cwestiwn 4: Ydych chi’n cytuno â’n dull gweithredu arfaethedig i fonitro perfformiad yn y blynyddoedd rhwng adolygiadau cyfnodol? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu ein bod wedi nodi'r ffactorau cywir i’w hystyried wrth bennu hyd y cylch adolygu? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y byddai cylch tair blynedd yn briodol? Rhowch resymau i esbonio eich ateb.

Cwestiwn 7: Ydych chi’n cytuno mai dyma’r ffactorau cywir i ni ystyried wrth benderfynu ar y meysydd i ‘w hystyried yn ystod adolygiadau cyfnodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?

Cwestiwn 8: Ydych chi’n cytuno mai dyma’r ffactorau cywir i ni ystyried wrth benderfynu bod angen edrych yn fanylach ar feysydd penodol tu allan i'r adolygiadau cyfnodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?

Cwestiwn 9: Ydych chi’n cytuno y dylai'r ffactorau hyn i gynnal adolygiad cyfnodol yn gynnar fod yn debyg i’r rhai ar gyfer cyflawni adolygiadau tu allan i’r cylch? Ydych chi’n meddwl bod hyn yn drothwy priodol? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?

Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno mai dyma’r ffactorau cywir ar gyfer pennu trefn y rheolyddion yn y cylch? A oes yna rai yr hoffech eu gweld wedi eu hychwanegu, dileu neu addasu?

Cwestiwn 11: Sefydlwch unrhyw effeithiau y byddai'r cynigion a sefydlir yn y papur hwn yn debygol o’u cael r eich sefydliad neu ystyriaeth y dylem eu hystyried wrth asesu effaith y cynigion.

Cwestiwn 12: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion yn seiliedig ar y nodweddion canlynol a ddiffiniwyd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Arall (nodwch)

Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

## Sut i ymateb

8.1 Gallwch ymateb i'r papur ymgynghoriad hwn trwy e-bost: PRConsultation@professionalstandards.org.uk.

8.2 Oherwydd y pandemig, rydym yn annog anfon ymatebion trwy e-bost neu trwy'n harolwg. Os nad yw hyn yn bosibl, ein cyfeiriad post yw:

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

8.3 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygyrch o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu trwy e-bost at PRConsultation@professionalstandards.org.uk.

8.4 Dychwelwch eich ymateb atom erbyn **21 Rhagfyr 2021**.

# 9. Cyfrinachedd gwybodaeth

9.1 Byddwn yn rheoli'r wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i'r papur trafod hwn yn unol â'n polisïau diogelwch gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan (www.professionalstandards.org.uk).

9.2 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a'r Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

9.3 Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol.

9.4 Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod.

9.5 Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

# 10. Ein proses ymgynghori ac adborth

10.1 Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, 'Consultation principles: guidance'.5 Wrth gyflawni ymgynghoriadau cyhoeddus ar agweddau o waith yr Awdurdod, rydym yn ceisio:

- Bod yn glir o ran y broses ymgynghori a'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddylanwadu ar ein syniadaeth ac ystyried manteision ac anfanteision ein cynigion

[5] Swyddfa'r Cabinet. 2016. *Consultation principles: guidance.* Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/492132/20160111_Consultation_principles_final.pdf

- Ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y polisi fel bod diben i'r ymgynghoriadau.
- Roi digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn deall y materion ac yn gallu darparu ymatebion gwybodus. Rydym yn cynnwys asesiadau o gostau a buddion a'r opsiynau a ystyriwyd.
- Ceisio barn gyfunol cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, yn arbennig wrth ymgynghori ar gynigion newydd.
- Ymgynghori am gyfnod cymesur o amser, gan gasglu barnau ar natur ac effeithiau'r cynigion. Byddai ymgynghori am gyfnod rhy hir yn oedi datblygiad polisi ac nid yw ymgynghori'n rhy gyflym yn rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth a bydd yn lleihau safon yr ymatebion.
- Sicrhau bod ein hymgynghoriad yn dargedig i ystyried yr ystod lawn o randdeiliaid, cyrff ac unigolion a effeithir gan y polisi a chynnwys grwpiau cynrychiadol perthnasol. Ystyried targedu grwpiau penodol os oes angen.
- Ystyried ymgynghori i fod yn broses barhaus, nid dogfennau ac ymatebion ffurfiol yn unig.
- Dadansoddi ymatebion yn ofalus ac esbonio'r ymatebion a dderbyniwyd a sut maent wedi hysbysu'r polisi. Rhoi adborth clir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos neu esbonio pam nad yw hynny'n bosibl.
- Caniatáu amser priodol rhwng cau'r ymgynghoriad a gweithredu'r polisi.

10.2 Os oes gennych bryderon neu sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â ni:

Christine Braithwaite
Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi
Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP
Ffôn: 020 7389 8030
Ffacs: 020 7389 8040

christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk